Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

May 2007

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Yn Gartrefol Gyda'r Gwirionedd

Yn ôl arolwg newydd gan gwmni telecom Mitel, mae tri rheolwr o bob deg yng Nghymru yn credu bod staff sy'n dweud eu bod yn gweithio gartref mewn gwirionedd yn defnyddio'r amser i roi sylw i'w materion domestig.

A chymryd bod gweithio gartref yn opsiwn hyfyw ymarferol heddiw oherwydd technoleg, ydych chi neu'ch goruchwylwyr yn meddu ar ddigon o sgiliau i reoli gweithwyr sy'n gweithio o bell – gan sicrhau, heb fod yn fusneslyd ac achosi drwgdeimlad, eu bod nhw'n atebol am eu hamser?

Dewis maes eich brwydr

'Os nad oes gennych chi fantais gystadleuol, peidiwch â chystadlu,' oedd cyngor clasurol Jack Welch i bobl fusnes. Bu gynt yn Gadeirydd a Phrif Weithredwr General Electric.

Faint o amser fyddwch chi'n ei dreulio'n ceisio contractau ar hap, pan mae'n amlwg nad ydych chi yn y sefyllfa orau i ennill y busnes penodol dan sylw? Fyddwch chi'n treulio digon o amser yn datblygu min cystadleuol go iawn ac yn ceisio mwy o fusnes nag y mae gennych chi wirioneddol obaith o'i ennill?

Cyflwyno'ch achos

Mae Prifysgol New South Wales yn honni ei bod wedi profi nad yw'r system cyflwyno hollbresennol, Powerpoint, mor ddefnyddiol ag y tybia llawer o reolwyr gan na all cynulleidfaoedd drin cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ar yr un pryd.

Fel rheolwr, fyddwch chi'n dewis arddull cyflwyno sy'n dilyn y dorf ynteu fyddwch chi'n ceisio arloesi er mwyn sicrhau eich bod yn cyfathrebu'n effeithiol â staff, cwsmeriaid ac eraill?

Rhwymau teuluol

Mae ymchwil newydd gan Bibby, sef cwmni gwasanaethau ariannol ledled y wlad, yn awgrymu mai teuluoedd sydd berchen ar dros 50% o chwech allan o bob deg o gwmnïau'r DU.

Os yw 'teulu' yn ffactor wrth redeg eich busnes, sut fyddwch chi'n sicrhau na fydd rhwymau gwaed byth yn camliwio barn ynghylch busnes ac y bydd aelodau'r tîm rheoli nad ydyn nhw'n rhan o'r teulu yn parhau'n dryw i'r fenter ac yn rhoi eu holl sylw iddi?

Gollwng gafael ar y gorffennol

Gwnaeth yr ysgrifennwr Alvin Toffler, sy'n adnabyddus am ei sylwadau treiddgar ynghylch chwyldro technolegol yr 20fed ganrif, y sylw yn ei lyfr The Third Wave mai 'Nid y rheiny na allan nhw ddarllen ac ysgrifennu fydd pobl anllythrennog yr 21ain ganrif ond yn hytrach, y rheiny na allan nhw ddysgu, dad-ddysgu ac ailddysgu'.

Fel rheolwr, a allwch chi ollwng gafael ar arferion rheoli a gweithredu nad ydyn nhw bellach o fudd ichi, a derbyn dulliau newydd, ynteu a ydych chi'n gweld eich hun yn dal eich gafael ar hen agweddau a dulliau cyfarwydd, hyd yn oed pan fyddwch chi'n ceisio symud eich adran neu'ch busnes ymlaen?

Gwerth eu darllen

Mae "Five Minds for the Future" gan Howard Gardner (Ysgol Fusnes Harvard) yn werth ei ddarllen. Ei nod yw "disgrifio'r mathau o feddyliau fydd eu hangen ar bobl er mwyn iddyn nhw ffynnu yn y dyfodol". Mae yna bum pennod ar gyfer y pum meddwl yn y teitl – y meddwl disgybledig, y meddwl sydd wedi'i syntheseiddio, y meddwl creadigol, y meddwl sy'n llawn parch a'r meddwl moesegol. Mae'n hawdd ei ddarllen ac yn ddiddorol, ac yn targedu addysgwyr a rheolwyr yn bennaf. Mae'n graff gan ei fod yn wirioneddol wneud ichi feddwl yn ofalus ynghylch sut y bydd angen inni i gyd feddwl yn y dyfodol, ac fe gewch hwyl yn dyfalu pa fath o feddwl sydd gennych chi – nid yw'n hawdd.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth